

CYNGOR TREF CAERFYRDDIN
PWYLLGOR DIBENION CYFFREDINOL
A GYNHALIWDYD AR 8 MAWRTH 2022 AM 7.30YH

Cynhaliwyd y cyfarfod yn Siambr y Cyngor, Neuadd Ddinesig San Pedr ac yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan alluogi cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a gynhelir o 1 Mai 2021 trwy bresenoldeb o bell.

Y Cyng. Angharad Jones Leefe, fu'n cadeirio'r cyfarfod.

PRESENNOL: Cynghorwyr: Gareth John (cyswllt fideo), Angharad Jones Leefe, Arwel Lloyd (cyswllt fideo), Miriam Moules (cyswllt fideo) a Barry Williams (cyswllt fideo).

Mr Alun Harries – Clerc i'r Cyngor Tref
Mrs Emma Smith – Dirprwy Clerc y Dref a Rheolwr Cyllid

358. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Baba Gana a Peter Hughes Griffiths.

359. Datgan buddiannau.

Dim

360. Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Dibenion Cyffredinol.

Dim materion yn codi.

Adroddiad Clerc y Dref

361. Ceisiadau Cynllunio

- (i) **PL/03508** - Trosi garej arfaethedig ac ymestyn garej yn rhandy unllawr - 9 Glynderi, Caerfyrddin, SA31 2HD. **DIM GWRTHWYNEBIAD**
- (ii) **PL/03503** - Estyniad blaen unllawr arfaethedig - 21 Plas y Ddôl, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3PL. **DIM GWRTHWYNEBIAD**
- (iii) **PL/03439** - Trelar / uned arlwydo symudadwy arfaethedig yng nghornel yr ardd gefn i weini diodydd poeth a bwyd - 4 Heol Salem, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 3HJ. Trafododd yr aelodau'r cais yn fanwl, a chytunwyd y byddai'r pwyllgor yn **GWRTHWYNEBU**'r cais ar sail pryderon am rwystr priffyrdd, rhwystr i'r llwybr troed yng Nghae Lles Tre Ioan, ac y byddai'r man gwasanaethu ar gyfer yr uned ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn ei gynnal a'i gadw gan y Cyngor.

- (iv) **PL/03550** - Cadw cyfleuster parcio a theithio ar raddfa lai a seilwaith cysylltiedig - Parcio a Theithio Nant-y-ci, Llanllwch, Caerfyrddin, SA33 5DR. **CEFNOGI**.
- (v) **PL/03530** - 20 Annedd Preswyl - Tir i'r Gogledd o Barc y Delyn, Caerfyrddin. Trafododd yr Aelodau'r cais yn fanwl a chynnig y **SYLWADAU** a ganlyn mewn ymateb:
- Lled y ffordd. Dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i addasrwydd y ffordd i ddelio â'r cynnydd mewn traffig yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi hynny pan fydd trigolion newydd wedi symud i mewn.
 - Adran 106. Os caniateir y cais mae'r Cyngor Tref yn gofyn am gyfraniad 106 tuag at ddatblygu cyfleusterau canol tref.
 - Cynladwyedd. Mae'r ffurflen gais cynllunio yn nodi (o dan yr adran 'Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) na fydd yn golygu gosod datblygiad ynni adnewyddadwy neu garbon isel ar ei ben ei hun. Mae'r aelodau yn gweld yr ymateb hwn yn amheus - felly, beth fydd yn cael ei wneud i leihau ôl troed carbon y datblygiad hwn a chynhyrchu cartrefi cynaliadwy, ynni effeithlon ar gyfer y dyfodol?
- (vi) **PL/03584**. Estyniad arfaethedig ar gyfer modurdy a throsi'r modurdy presennol yn ystafell fyw. 1 Llwyn yr Eos, Caerfyrddin, SA31 3GH. **DIM GWRTHWYNEBIAD**
- (vii) **PL/03581**. Estyniad Llawr Cyntaf (Ystafell Wely uwchben Garej Wrth Gefn) Rhif 10 Heol y Delyn, Caerfyrddin SA31 1EE. **DIM GWRTHWYNEBIAD**.

362. Materion Priffyrdd

Dim

363. Materion Trwyddedu

Dim

364. Adolygiad o Ardaloedd Cadwraeth yng Nghaerfyrddin

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi comisiynu Donald Insall Associates i adolygu 10 Ardal Gadwraeth ledled Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys tref Caerfyrddin. Bydd yr adolygiad yn helpu i reoli a diogelu diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig yr ardaloedd hyn, gan gynnwys yr adeiladau, y coed, a'r mannau agored – mewn geiriau eraill, y nodweddion sy'n eu gwneud yn unigryw. Trafododd yr aelodau'r adolygiad a sut y gallai'r Cyngor Tref helpu i gynnal yr adolygiad yn effeithiol. **ARGYMHELLWYD** y gallai Neuadd Ddinesig San Pedr hwyluso digwyddiad lle y gellid gwneud cyflwyniad a chasglu gwybodaeth gan y mynychwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.11 y.h.